**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (4)**

**Dydd Iau, 16 Mai 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 2**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau.

**Eitem 3**
**Datganiad: Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Broffesiynau Iechyd Cymru -** *Mae'r eitem hon wedi cael ei gohirio tan 23 Mai.*

**Eitem 4**
**Dadl ar y Strategaeth i Bobl Hyn**
***NDM1053* -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn derbyn ac yn nodi cynnwys Adroddiad y Grwp Ymgynghorol ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru a anfonwyd drwy'r e-bost at yr Aelodau ar 9 Mai 2002;

2. Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn y cyfarfod llawn y cytunwyd arno ar 1 Mawrth 2001, yn cadarnhau fel polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru gasgliadau'r Grwp Ymgynghorol mewn perthynas â gofal personol a ddarperir am ddim gan y Cynulliad Cenedlaethol;

3. Yn croesawu bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ei Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn a'i Gynllun Gweithredu, yn dilyn ymgynghoriad ar Adroddiad y Grwp Ymgynghorol.

Cliciwch yma i weld Adroddiad y Grwp Ymgynghorol ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn - Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen hon ar gael ar We'r Siambr.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol:*

(1)
(2)+(3)

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cydnabod bod gwahaniaethu ar sail oedran yn bodoli mewn cymdeithas ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i lwyr gydnabod hawliau pobl hyn i gael gwasanaethau cyhoeddus a chyfle i gael gwaith a hamddena.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd:

Yn gweld bai ar Lywodraeth y DU am fethu â mabwysiadu argymhelliad y Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir i ddiddymu'r tâl a godir am nyrsio a gofal personol.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**
Ychwanegu pwynt newydd:

Yn cydnabod bod gwahaniaeth artiffisial ac annheg rhwng nyrsio a gofal cymdeithasol.

**Eitem 5**
**Dadl Fer wedi'i had-drefnu: *NDM1026* Jonathan Morgan (Canol De Cymru): Cyfranogiad Pobl Ifanc mewn Gwleidyddiaeth.**

**Eitem 6**
**Dadl Fer: *NDM1052* Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Cymuned yr Armeniaid yng Nghymru a'r Hil-laddiad yn Nhwrci.**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 21 Mai 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**